# Diwrnod Cofnodwyr Cors Geirch

## 5ed Mehefin 2013



Cyfarfu deuddeg o gofnodwyr ym Moduan i archwilio rhyfeddodau biolegol Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Cors Geirch, y cynefin mwyaf o gors ar Benrhyn Llŷn. Ymhlith y grwpiau o rywogaethau y rhoddwyd sylw iddynt ar y diwrnod roedd bryoffytau, planhigion fasgwlaidd, adar, pryfed cop, infertebrata dyfrol, Lepidoptera ac ambell rywogaeth y daethpwyd o hyd iddi ar ddamwain.

Roedd y tywydd yn garedig iawn, gyda haul o'r dechrau i'r diwedd bron, gan sicrhau diwrnod pleserus iawn yn y maes.

Arweiniodd Les Colley, warden y Warchodfa Natur Genedlaethol, y grŵp i ardal yng ngogledd y tir gwlyb eang yma i ddechrau. Gwahanodd y grŵp yn y fan yma er mwyn i'r unigolion ganolbwyntio ar eu harbenigedd eu hunain, a'r unig beth oedd yn tarfu ar dawelwch hyfryd y safle oedd y rhwydi niferus yn sgubo ar hyd y tir, cri'r Gnocell Werdd a chwyrnellu achlysurol y samplwr faciwm! Tynnodd Les sylw at enghreifftiau o *Dactylorhiza traunsteineri*, gyda'u blodau fioled llachar – tegeirian prin y gors. Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill yn yr ardal hon roedd y pryf *Orthonevra geniculata*, yr ail gofnod yn unig o'r rhywogaeth yma yng Ngogledd Cymru. Canfuwyd tri phryf cop newydd i'r Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig hefyd: *Theridiosoma gemmosum*, *Xysticus ulmi* ac *Ozyptila brevipes*; gydag *X. ulmi* ac *O. brevipes* yn cynrychioli'r cofnodion cyntaf i'r rhywogaeth yn Sir Gaernarfon.

Ar ôl cinio, aethom i ran ddeheuol y gors ger Rhyd-y-clafdy. Unwaith eto, gwahanodd pawb ar draws y safle i chwilio am eu grwpiau o rywogaethau. Roedd Les wrth law i ddangos rhai o blanhigion arbenigol y safle i bobl, gan gynnwys yr Utricularia intermedia cigysol yn ei leoliad mwyaf deheuol ym Mhrydain. Llwyddodd Andrew Graham i ddod o hyd i larfa'r micro-wyfyn, *Coleophora genistae*, yn byw mewn cloriau dail hynod fach wedi'u hadeiladu o'i blanhigyn bwyd, *Genista anglica*.

Hyd yma, rydym wedi derbyn 202 o gofnodion ar gyfer y diwrnod, gan gynrychioli 157 o rywogaethau amrywiol. Rydym yn disgwyl cofnodion ychwanegol ar ôl cael canlyniadau archwiliadau microsgopig.





cofnod
Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
North Wales Environmental Information Service

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales
PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP